Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Y.G.G.G. Llantrisant

Dyddiad yr arolygiad: 01/06/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig sy'n gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ethos cynhwysol, gofalgar a Chymreig yn treiddio drwy bob agwedd. Mae hyn yn cyfrannu'n gryf at les disgyblion a staff ac yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu effeithiol ac yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae eu medrau darllen ac ysgrifennu yn datblygu'n gadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n aeddfed ac yn mynegi syniadau'n greadigol. Mae medrau mathemateg a rhifedd disgyblion yn gadarn ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus wrth gwblhau tasgau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cwricwlwm yn darparu profiadau diddorol a pherthnasol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu syniadau ac i ddylanwadu ar agweddau ar fywyd yr ysgol. O ganlyniad, maent yn dangos brwdfrydedd tuag at eu gwaith ac yn datblygu hunanhyder a medrau arwain yn effeithiol. Er hyn, ar adegau, mae athrawon yn gor arwain y dysgu sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant dysgu proffesiynol cryf. Mae staff yn ymholi'n bwrpasol ac yn cydweithio'n fwriadus i wella addysgu. Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso cadarn i nodi cryfderau a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol ac yn hyrwyddo presenoldeb uchel, gan gael effaith gadarnhaol ar brofiadau a chynnydd disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn cyfrannu'n briodol at weithdrefnau gwella'r ysgol, er bod lle i gryfhau eu rôl wrth herio a gwerthuso effaith y ddarpariaeth. Mae perthynas agos yr ysgol â rhieni a'r gymuned yn gryfder amlwg sy'n cefnogi lles a datblygiad disgyblion yn llwyddiannus.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau dysgu a chwarae annibynnol tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/08/2026